**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (MEIFOD I BONTNEWYDD, GWYNEDD) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar yr A487, neu gerllaw iddi, ym Meifod, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Pant, Meifod hyd at bwynt 5 metr i'r gogledd o'i chroesffordd â mân gylchfan Bontnewydd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yw gadael yr A487 ar Stryd y Degwm, Caernarfon a dilyn yr A4085 tua'r de-ddwyrain i Gylchfan Caeathro, cymryd y 3edd allanfa a mynd tua'r de-orllewin i ailymuno â'r A487 wrth fân gylchfan Bontnewydd: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 2 Awst 2021 a disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (22:00 – 05:00 o'r gloch) o 2 – 13 Awst 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (MEIFOD TO BONTNEWYDD, GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 at Meifod, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 trunk road that extends from a point 5 metres south of the centre-point of its junction with Pant Road, Meifod to a point 5 metres north of its intersection with Bontnewydd mini roundabout.

The alternative route for southbound vehicles is to leave the A487 at Stryd y Degwm, Caernarfon and follow the south-eastbound A4085 to Caeathro Roundabout, take the 3rd exit and proceed south-westbound to rejoin the A487 at Bontnewydd mini roundabout: vice versa for northbound traffic.

The Order comes into force on 2 August 2021 and the temporary prohibition is expected to operate overnight (22:00 – 05:00 hours) from 2 – 13 August 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government